# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 6**

ACHOSION ARBENNIG

*Grwpiau corfforaethol*

## 79 Amrywio neu ganslo dynodiad

(1) Pan fo dau gorff corfforaethol neu ragor wedi eu dynodi'n grŵp, caiff ACC—

(a) amrywio dynodiad y grŵp drwy—

(i) ychwanegu aelod neu dynnu aelod ymaith;

(ii) newid yr aelod cynrychiadol;

(b) canslo dynodiad y grŵp.

(2) Ond rhaid i ACC—

(a) amrywio dynodiad grŵp drwy dynnu aelod ymaith os yw wedi ei fodloni nad yw'r aelod yn bodloni'r amodau yn adran 78(1);

(b) canslo dynodiad y grŵp os yw wedi ei fodloni nad oes gan y grŵp ddau aelod neu ragor sy'n bodloni'r amodau hynny.

(3) Caiff dynodiad ei amrywio neu ei ganslo drwy ddyroddi hysbysiad i bob aelod o'r grŵp (gan gynnwys, yn achos amrywio er mwyn ychwanegu aelod neu dynnu aelod ymaith, bob aelod a ychwanegir neu a dynnir ymaith).

(4) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) nodi manylion yr amrywiad neu'r canslo, a
(b) pennu ar ba ddyddiad y mae'n cael effaith.

(5) Caiff ACC amrywio neu ganslo dynodiad grŵp—
(a) ar ôl cael cais a gyflwynir mewn ysgrifen o dan yr adran hon, neu
(b) ar ei gymhelliad ei hun.

(6) Caiff aelod cynrychiadol grŵp wneud cais i amrywio neu ganslo dynodiad y grŵp; ond rhaid i'r aelod cynrychiadol fodloni ACC y gwneir y cais gyda chytundeb pob aelod arall o'r grŵp (gan gynnwys, yn achos cais i amrywio'r dynodiad drwy ychwanegu aelod, yr aelod a fyddai'n cael ei ychwanegu pe bai'r amrywiad yn cael ei wneud).

(7) Caiff aelod sy'n dymuno cael ei dynnu ymaith hefyd wneud cais i amrywio dynodiad grŵp drwy dynnu'r aelod ymaith; mewn achos o'r fath, rhaid i'r aelod hwnnw fodloni ACC bod pob aelod arall o'r grŵp wedi ei hysbysu am y cais.

(8) Os yw ACC yn gwrthod cais i amrywio neu ganslo dynodiad, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad am ei benderfyniad i'r corff corfforaethol a wnaeth y cais.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 79 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 79 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(w)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 79.